

Newyddion gwych wrth i gynlluniau ar gyfer parc dŵr gael eu cymeradwyo

Cyrhaeddwyd carreg filltir arwyddocaol yn adfywiad glan y môr y Rhyl, gyda chaniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer parc dŵr blaenllaw yn y Rhyl.

Cymeradwyodd aelodau cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych y cynllun heddiw (dydd Mercher) ar gyfer ardal ddŵr 1200 metr sgwâr gyda reidiau cafnau dŵr dan do ac awyr agored, ffrâm chwarae a sleidiau dŵr i blant, ardal gweithgareddau chwarae uchder dwbl i blant, cyfleusterau dringo, ystafelloedd parti, derbynfa, ardal werthu, Pwll Tasgu awyr agored – dau bad tasgu gwlyb, ardal gwelyau haul, terasau a chaffi i ddarparu adloniant chwarae gwlyb.

Bydd modd i bobl newid eu dillad mewn cytiau traeth yn y parth tasgu awyr agored a bydd yno doiledau, yn ogystal â bar a theras ar gyfer masnachu gyda'r nos.

Cefnogodd y Cyngor y cynigion ar gyfer y Parc Dŵr yn ffurfiol yn gynharach eleni ac mae'r Cyngor, Cyngor Tref y Rhyl a Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ariannol i'r datblygiad.

Bydd y datblygiad yn creu 60 o swyddi newydd ac yn denu 350,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r dref bob blwyddyn. Bydd gwaith yn dechrau ar y safle ym mis Medi 2017 a disgwylir i'r cyfleusterau newydd agor ar ddechrau 2019.

Bydd y cynigion, a luniwyd mewn partneriaeth ag Alliance Leisure, hefyd yn golygu y bydd parc sgrialu'r dref yn cael ei adleoli. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â phobl ifanc leol i gydgyllunio'r parc sgrialu a bydd y cyfleuster newydd yn cynnig nodweddion newydd, mwy deniadol. Bydd pad tasgu a theras haul awyr agored llawer gwell yn dod yn lle'r pwll padlo fel rhan o'r datblygiad.

Meddai Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh Evans OBE sydd hefyd yn Aelod Arweiniol y Cabinet dros Adfywio: "Rwy'n falch dros ben fod y Cyngor wedi rhoi caniatâd cynllunio ffurfiol i'r parc dŵr. Mae'n brosiect sylweddol i'r Cyngor mewn ymdrech i ailddatblygu glan y môr y Rhyl yn ogystal â chynyddu niferoedd ymwelwyr y dref a chreu swyddi a fydd yn hwb i'r economi leol.

Bydd hwn yn atyniad unigryw i breswylwyr ac ymwelwyr a gallwn nawr fynd ati i baratoi i symud ar y safle ar ôl yr haf".

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James: "Mae'r parc dŵr yn addo dod ac ystod eang o fuddiannau i'r dref, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn sefydlu'r dref fel cyrchfan ar gyfer ymwelwyr. Gyda'r

caniatâd cynllunio rŵan mewn lle, gallwn weld y gwaith yn cychwyn ar yr adnodd hynod gyffrous hwn ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr y dyfodol.

“Mae’r newid i’w weld yn y dref ac mae amynedd pobl y Rhyl yn cael ei dalu ar ei ganfed. Gallwn fod yn falch o’r cyfleuster, fydd yn gosod Rhyl ar y map”

Am fanylion pellach am y datblygiad, edrychwch ar:

www.rhylwaterparkdevelopment.co.uk

Nodyn i olygyddion: I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu ar 01824 706222.